Gwneud Marchnata yn Hygyrch i Bawb - Cynghorion Craff

Y cyfryngau cymdeithasol 1 Gwnewch eich delweddau mor hygyrch â phosibl. Os oes opsiwn i ddefnyddio tagiau alt (er enghraifft, apiau symudol Twitter), gwnewch hynny. Mae canllawiau ar gael ar gyfer cyferbyniadau lliw ac os ydych chi'n defnyddio testun y tu mewn i'ch delweddau, rhowch nhw ar gefndir plaen.

2. Defnyddio hyperddolenni. Mae ychwanegu dolen i dudalen gwe i gael rhagor o wybodaeth yn rhoi ffordd i bobl sy’n defnyddio technoleg gynorthwyol i ddarllen y cynnwys yn HTML.

3. Defnyddiwch gapsiynau ac isdeitlau ar gyfer fideos os ydych chi'n rhannu cynnwys fideo, defnyddiwch gapsiynau a disgrifiadau sain. Mae hyn yn agor y cynnwys ar gael i bawb, nid dim ond y rhai â nam ar eu clyw. Mae ymchwil yn dangos bod hyd at 85% o bobl bellach yn gwylio fideos ar-lein heb y sain.

4. Dim ond os yw'n ychwanegu gwerth at y cynnwys y dylech ddefnyddio GIF. Mae ymchwil yn dangos bod pobl sydd â rhai namau gwybyddol neu weledol yn cael GIFs yn anodd eu prosesu ac maen nhw’n gallu tynnu sylw defnyddwyr oddi ar y neges